

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2015

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyhoeddwyd: Mawrth 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 769A2015

Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Matthew Edwards, Dave Thomas, Mandy Townsend a Mike Usher.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	9
Adran 1: Archwilio cyfrifon	10
Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm barn archwilio.	10
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	13
Nid yw'r cynlluniau arbed ond yn ymdrin â chyfran o'r diffyg ariannol. Rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae'n annhebygol iawn y bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2015-16.	14
Mae llawer o waith ar y gweill i wella llywodraethu, ond mae rhai heriau sylfaenol yn parhau y mae angen eu datrys ar frys.	16
Wrth archwilio'r ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau, canfûm fod heriau yn gysylltiedig â chapasiti, gallu a gwytnwch yn amharu ar y gallu i gyflawni newid yn ddigon cyflym.	22
Yn fy ngwaith arall ar berfformiad, tynnwyd sylw at y ffaith bod amrywio mewn arferion ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn her, er y cafwyd rhai arwyddion o gynnydd yn ystod y misoedd diwethaf.	25
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	32
Ffi Archwilio	33
Risgiau archwilio sylweddol	34

Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2015.
2. Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
3. Y Bwrdd Iechyd yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau sylfaenol, cymunedol a iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty aciwt i boblogaeth o oddeutu 678,000 ar draws Gogledd Cymru, ynghyd â nifer sylweddol o ymwelwyr a thwristiaid yn yr ardal. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyllideb o oddeutu £1.3 biliwn, mae'n cyflogi oddeutu 16,700 o staff ac mae ganddo dri ysbyty cyffredinol dosbarth. Y mae hefyd yn darparu gofal mewn 17 o ysbytai aciwt a chymunedol eraill, a thrwy rwydwaith sy'n cynnwys mwy na 90 o ganolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau iechyd cymuned ac unedau iechyd meddwl. Mae 112 o bractisau meddyg teulu, 97 o ddeintyddion, 74 o optegwyr a 155 o fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau'r GIG yng Ngogledd Cymru.
4. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu sawl her benodol y rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd iddynt yn gysylltiedig â'i drefniadau llywodraethu ac agweddau ar ofal cleifion. Ym mis Mehefin 2015 gwnaed y Bwrdd Iechyd yn destun mesurau arbennig gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr oedd hynny o ganlyniad i bryderon penodol a pharhaus ynghylch llywodraethu, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau obstetreg a gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau o fewn y Bwrdd Iechyd, a'i allu i gysylltu ac ymgysylltu â'r staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.
5. Ar ôl gorfodi mesurau arbennig ym mis Mehefin 2015, cafodd y Prif Weithredwr ar y pryd ei wahardd o'i swydd, ac fe gymerodd Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru yr awenau fel Prif Weithredwr dros dro. Fel prif ymateb cychwynnol i'r mesurau arbennig, cyflwynodd y Prif Weithredwr dros dro a'i dîm arweinyddol gynlluniau 100 diwrnod fel dull o ganolbwyntio ar bob un o'r meysydd a nodwyd gan y Gweinidog yn destun pryder.
6. Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod hi'n debygol y byddai'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn destun mesurau arbennig am ddwy flynedd o lleiaf, ac y byddai cerrig milltir yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn cynllun gwella. Nodwyd cefnogaeth ychwanegol benodol mewn sawl maes hefyd. Cadarnhawyd yn ddiweddar na fydd y Prif Weithredwr blaenorol yn dychwelyd i'w swydd. Wrth lunio'r adroddiad hwn, penodwyd olynydd parhaol. Bydd yr olynydd hwnnw'n dechrau'r rôl ym mis Ebrill 2016.
7. Yn fy ngwaith archwilio, canolbwyntiais ar flaenoriaethau strategol, gan gynnwys llywodraethu, yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol a wynebai'r Bwrdd Iechyd, ac sydd yn berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a'u cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld yr adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf yn [Atodiad 1](#).
8. Cytunwyd â'r Prif Weithredwr dros dro a'r Cyfarwyddwr Cyllid ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynir yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2016, a darperir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad

hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.archwilio.cymru).

9. Ceir crynodeb o'r prif negeseuon o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

10. Rhoddais farn ddiamedod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd lechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio Nodir y materion hyn yn fanwl yn **Adran 2** o'r adroddiad hwn.
11. Yn ogystal, cyflwynais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd lechyd ochr yn ochr â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r ddwy ddyletswydd ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 yn sgil Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, perfformiad y Bwrdd lechyd lleol yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.
12. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad:
- Bod cyfrifon y Bwrdd lechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol, a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.
 - Bod gan y Bwrdd lechyd amgylchedd rheolaeth effeithiol er mwyn lleihau'r risg o gamdatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol.
 - Bod systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd lechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol yn ôl y bwriad; er bod angen i reolwyr gymryd camau i ymdrin â rhai gwendidau mewn systemau.
13. Ni lwyddodd y Bwrdd lechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2014-15. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn **Adran 2** yr adroddiad hwn.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

14. Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun bod gan gyrrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Rwyf wedi cyflawni amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd lechyd dros y 12 mis diwethaf, i'm cynorthwyo i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw.
15. Yn fy ngwaith eleni, cafwyd ffocws cryf ar lywodraethu. Cyflawnais waith manwl penodol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru (AGIC) yn nhymor yr hydref ar y meysydd pryder a oedd yn gysylltiedig â'r mesurau arbennig. Yn ogystal â hyn, cynhaliais adolygiad ehangach drwy gydol y flwyddyn o drefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig lle edrychwyd ar drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed yn gysylltiedig â materion gwella a nodwyd y llynedd. Yn ogystal â hyn, cynhaliais adolygiadau archwilio perfformiad ar feysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Yn sgil y gwaith hwn, deuthum i'r casgliadau canlynol:

Nid yw'r cynlluniau arbed ond yn ymdrin â chyfran o'r diffyg ariannol, rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae'n annhebygol iawn y bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2015-16.

16. Yn fy ngwaith, nodwyd bod trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn annigonol, gan iddo fethu gweithredu oddi mewn i'w ddyraniad adnoddau refeniw ar gyfer 2014-15, gan adrodd diffyg o £26.6 miliwn.
17. Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi sefydlu dull cadarn a chynaliadwy o gyflawni targedau ariannol yn 2015-16, ac fe geir risg sylweddol na fydd yn sicrhau cydbwysedd ariannol.
Rhagwelir diffyg o £19.7 miliwn yn y flwyddyn honno, fydd o bosib yn cynyddu i £89 miliwn yn 2016-17, oni fydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn cyllid ychwanegol.

Mae gwaith ar y gweill i wella llywodraethu, ond mae rhai heriau sylfaenol yn parhau y mae angen eu datrys ar frys.

18. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu sawl her benodol y rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd iddynt yn gysylltiedig â'i drefniadau llywodraethu ac agweddau ar ofal cleifion.
Ym mis Mehefin 2015, gwnaed y Bwrdd Iechyd yn destun mesurau arbennig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwnaed hynny o ganlyniad i nifer o bryderon, gan gynnwys trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.
19. Fel rhan o'r ymateb cychwynnol i'r mesurau arbennig, cyflwynodd y Prif Weithredwr dros dro a'i dîm arweinyddol gynlluniau 100 diwrnod fel dull o ganolbwyntio ar bob un o'r meysydd a nodwyd gan y Gweinidog yn destun pryder. Ym mis Hydref 2015, ysgrifennais at y Prif Weithredwr dros dro, ar y cyd â Phrif Weithredwr AGIC, gan nodi ein hasesiad o'r cynnydd yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran ymdrin â'r pryderon a arweiniodd at orfodi mesurau arbennig. Er gwaethaf yr ymateb cadarnhaol i'r mesurau arbennig, ein casgliad oedd bod angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â nifer o heriau sylfaenol o hyd. Mae ei sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn ansicr, ac mae angen iddo gymryd sawl cam ar frys i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu. Mae capasiti, gallu a gwytnwch arweinyddol yn risgiau allweddol, ac mae diffyg strategaeth glinigol a Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) yn parhau i amharu ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol yn gyflym.
20. Cynhaliwyd fy asesiad strwythuredig drwy gydol 2015, ac fe gyfrannodd yr asesiad at y gwaith a gyflawnais ar y cyd ag AGIC, ac adeiladu ar y gwaith hwnnw. Fel y blynyddoedd cynt, roedd fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn archwilio pa mor ddigonol yw trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, a'r rheolaeth ar ffactorau galluogi allweddol sy'n cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau. Wrth archwilio'r meysydd hyn, ystyriais y cynnydd a wnaed yn erbyn materion gwella a nodwyd y llynedd.
Er symrlwydd, byddaf yn adrodd fy nghanfyddiadau ar strategaeth, strwythur trefniadol, strwythurau llywodraethu, gwybodaeth reoli ac effeithiolrwydd y Bwrdd, rheolaeth fewnol a rheoli perfformiad yn y rhan hon o'm hadroddiad.

-
- 21.** Yn fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, canfûm yn gyffredinol fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran materion llywodraethu, a'i fod wedi dechrau cyflymu'r gyfradd wella ers gorfodi mesurau arbennig. Yn benodol, mae gennyf bryderon o hyd ynghylch diffyg strategaeth gytunedig ar gyfer gwasanaethau clinigol, y gwaith ad-drefnu anghyflawn, a gafael a chapasiti'r sefydliad yn y strwythurau dros dro. Mae gennyf hefyd rai pryderon sylfaenol ynghylch effeithiolrwydd y Bwrdd, ac fe geir diffyg eglurder yn rhai o linellau sicrwydd ac adrodd y Bwrdd. Fodd bynnag, gwelais fod sawl maes arall yn dechrau dangos arwyddion o gynnydd, yn enwedig y trefniadau rheoli perfformiad newydd a'r wybodaeth reoli ddiwygiedig. Cyhoeddodd y Bwrdd ei weledigaeth a'i amcanion strategol, a'i galluogodd i wneud cynnydd gyda Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd diwygiedig. Ar ben hynny, gwelais gynnydd cyson a pharhaus gyda rheolaethau mewnol, ac mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth gweithredol yn parhau i wella'n gyson yn y rhan fwyaf o feysydd.

Wrth archwilio'r ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau, canfûm fod heriau yn gysylltiedig â chapasiti, gallu a gwytnwch yn amharu ar y gallu i gyflawni newid yn ddigon cyflym.

- 22.** Roedd fy asesiad strwythuredig hefyd yn cynnwys gwaith ychwanegol penodol ar y ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau; gan gynnwys rheoli newid, y gweithlu, asedau, ymgysylltu a thechnolegau.
- 23.** Cefais fod yr arbenigedd i reoli newid yn wasgaredig ar draws gwahanol swyddogaethau, ac nad oes digon o arbenigedd na chapasiti mewnol i gefnogi'r arweinwyr gweithredol a chlinigol.
- 24.** Wrth archwilio cynlluniau'r gweithlu, gwelais gynnydd o ran recriwtio nyrsys a bydwagedd, ac o ran deall anghenion cyfredol y gweithlu meddygol. Er hynny, bydd datrys heriau hirdymor yn gysylltiedig â'r gweithlu a hynny heb strategaeth glinigol glir, a rheolaeth well ar yr holl grwpiau staff, yn parhau i fod yn gryn her.
- 25.** Yn fy ngwaith ar ystadau ac asedau, cesglais fod y Bwrdd Iechyd wedi profi pryderon llywodraethu sylweddol yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf. Er hynny, mae'r Bwrdd bellach mewn sefyllfa well i fynd ar drywydd anghenion datblygu ystadau sy'n bodoli ers tro byd, ochr yn ochr â datblygiad ei strategaeth ehangach.
- 26.** Mae gwaith partneriaeth a gwaith i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn tanategu llawer o'r newidiadau y mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio'u cyflawni, ac mae hyn ymhlith y meysydd sy'n destun pryder i'r Gweinidogion tra bo'r Bwrdd yn destun mesurau arbennig. Cedwais drosolwg o ddatblygiadau yn y maes hwn, yn ogystal â'm gwaith ar y cyd ag AGIC, a chanfod bod y Bwrdd Iechyd ar ganol ailennyn hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid.

Yn fy ngwaith arall ar berfformiad, tynnwyd sylw at y ffaith bod amrywio mewn arferion ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn her, er y cafwyd rhai arwyddion o gynnydd yn ystod y misoedd diwethaf.

- 27.** Cyflawnais amrywiaeth o waith mandadol Cymru gyfan a gwaith lleol dros y 12 mis diwethaf, gan drafod ystod eang o destunau. Ceir crynodeb isod o'r gwaith hwn:
- Canfûm arweinyddiaeth dda ac adnoddau cymharol dda ar gyfer rheoli meddyginiaethau aciwt, er bod rhwystrau trefniadol yn cyfyngu ar y gallu i ymgysylltu ar draws y Bwrdd Iechyd ehangach. Ceir hefyd anghydraddoldeb ar draws safleoedd a lle i wella'r trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau, monitro perfformiad, a nifer o brosesau allweddol i reoli meddyginiaethau.
 - Yn fy ngwaith ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol, canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd nifer cynyddol o gleifion allanol yn disgwyl am apwyntiad dilynol, ac nad oes ganddo ddealltwriaeth lawn o'r risg y mae'n ei wynebu o ran ei wasanaeth clinigol yng nghyswllt y cleifion allanol sy'n wynebu oedi cyn cael apwyntiad dilynol. Fodd bynnag, mae'n dechrau cynllunio i foderneiddio ei wasanaethau i gleifion allanol.
 - Bu fy ngwaith i gefnogi gweithrediad fy argymhellion archwilio o gymorth i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu proses fwy cadarn ar gyfer olrhain gweithrediad argymhellion, o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Canfûm dystiolaeth fod y broses o weithredu fy argymhellion wedi cyflymu dros y chwe mis diwethaf.
 - Yn fy ngwaith dilynol penodol ar wasanaethau arlwygo a maeth cleifion, canfûm gynnydd rhesymol wrth ymdrin ag argymhellion gwella, a bod oddeutu hanner fy argymhellion a'm hawgrymiadau wedi'u cyflawni. Serch hynny, mae angen gwneud mwy o waith i atgyfnerthu agweddau ar y broses sgrinio maeth, i wella'r profiadau i rai cleifion ar amseroedd prydau bwyd, i leihau eto y bwlch rhwng incwm a chostau am wasanaethau arlwygo nas darperir i gleifion, ac i adolygu'r trefniadau cynllunio ac adrodd yn dilyn gwaith diweddar i ad-drefnu'r gwasanaeth.
- 28.** Ar ran fy nhîm, hoffwn gydnabod a diolch am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

29. Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2015.
30. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004¹. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli; ac
 - fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
31. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
32. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn [Atodiad 1](#).
33. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- Adran 1: Archwilio cyfrifon
 - Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau
34. Yn [Atodiad 2](#) dangosir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2015.
35. I gloi, nodir yn [Atodiad 3](#) y prif risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2015, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 36.** Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.
- 37.** Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys - a achoswyd drwy dwyll neu drwy wall;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Daliadau wedi'i pharatoi'n briodol; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 38.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
- 39.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
 - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a chyflwynais adroddiad naratif ochr yn ochr â'm barn archwilio.

Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi mewn modd priodol, ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;

- 40.** Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu llunio i'w harchwilio erbyn y dyddiad terfyn 1 Mai 2015, ac roedd y datganiadau hynny o safon dda. Er gwaethaf y terfyn amser heriol, canfuom fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfrifon yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn gyflawn ym mhob ffordd berthnasol. Mae a wnelo'r amcangyfrifon sylweddol sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn bennaf â chroniadau (gwariant gofal sylfaenol a thâl gwyliau), a darpariaethau (Gofal Iechyd Parhaus, esgeulustod clinigol, anafiadau personol ac eraill). Daethom i'r casgliad bod polisïau ac amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol, a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol

yn ddi-duedd, yn deg ac yn glir. Ni chawsom unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad, ac ni chyfyngwyd arnom yn ein gwaith.

41. Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn gerbron Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 4 Mehefin 2015. Ceir crynodeb yn **Arddangosyn 1** o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Tanseiliwyd trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn.	Yn fy ngwaith dilynol ar faterion caffael, nodwyd rhai achosion posibl o dorri gweithdrefnau yng nghyswllt y defnydd o weithrediadau tendr sengl a hepgoriadau. Roeddwn yn fodlon na chafodd fy nghanfyddiadau dros dro unrhyw effaith ar fy marn archwilio ynghylch datganiadau ariannol 2014-15. Fodd bynnag, cyflwynais adroddiad archwilio ar wahân wedi hynny a oedd yn cynnwys fy nghanfyddiadau manwl. Manylir ymhellach ar fy nghanfyddiadau ym mharagraff 47 o'r adroddiad hwn.
Ni chadwyd at weithdrefnau cadw stoc y Bwrdd Iechyd bob amser.	Nodwyd sawl achlysur pan na ddilynwyd gweithdrefnau cadw stoc y Bwrdd Iechyd, gan achosi tanddatganiad o £44,000 yng ngweddill y rhestrau stoc. Derbyniodd y rheolwyr fy argymhelliad i atgyfnerthu prosesau sicrwydd ansawdd y Bwrdd Iechyd ar gyfer cadw stoc yn 2015-16, er mwyn sicrhau bod datgeliad y rhestrau stoc yn gyflawn, yn gywir ac wedi'i bennu'n unol â pholisi a'r gweithdrefnau cyfrifyddu a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd.
Yr ymdriniaeth gyfrifyddu â threfniadau prydles etifeddol a drosglwyddwyd o gyrrff a ragflaenodd y Bwrdd Iechyd	Yn 2012-13 a 2013-14, adroddais ar fater a oedd yn gysylltiedig â'r ymdriniaeth gyfrifyddu â threfniant prydles etifeddol ar gyfer Ysgol Nyrzio Fron Heulog ym Mhrifysgol Bangor, a etifeddwyd oddi wrth Fwrdd Iechyd Lleol Powys yn 2009. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i adolygu'r ymdriniaeth â Fron Heulog a threfniadau etifeddol eraill fel mater o frys, er mwyn sicrhau datgeliad llawn a phriodol yn natganiadau ariannol 2014-15. Er bod trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt â Chydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau, ni chafodd y mater ei ddatrys mewn pryd i oleuo datganiadau ariannol 2014-15. Ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael inni, casglwyd nad oedd y datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamdatganiad o bwys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau y dylai'r mater gael ei ddatrys yn 2015-16.

42. Yn rhan o'm gwaith archwilio ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:
- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan - Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2015, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
 - Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - Deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

-
- 43.** Paratowyd datganiadau ariannol elusennol drafft y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2014-15 ym mis Mai 2015. Roedd y gwaith cynnar i baratoi'r datganiadau ariannol drafft yn adeiladu ar y trefniadau cau cynnar a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd yn y blynyddoedd cynt. Rhoddais farn ddiamed ar y datganiadau ariannol elusennol ar 2 Hydref 2015.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol

- 44.** Ffocws pennaf fy ngwaith yw cywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheolaeth fewnol er mwyn asesu a yw'n rhoi sicrwydd na cheir unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy wall neu drwy dwyll. Mae hyn yn cynnwys adolygu rheolaethau ariannol lefel uchel y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y brif system gyfrifyddu a'r prosesau cau.
- 45.** Bu fy nhîm hefyd yn ystyried gwaith a rôl archwilio mewnol yn rhan o'r asesiad hwn. Ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd.

Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, er bod angen i'r rheolwyr fynd i'r afael â rhai gwendidau mewn systemau, yn enwedig sefyllfaoedd lle na chadwodd y Bwrdd Iechyd at ei gyfarwyddiadau ariannol sefydlog wrth ddyfarnu amryw o gontractau.

- 46.** Ni chefais hyd i unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n cael unrhyw effaith ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn deillio o'm gwaith archwilio ariannol, ac adroddwyd y rhain yn fy Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2015. Yn arbennig, roedd amrywiaeth o ffactorau sylweddol iawn yn rhoi pwysau ar y gyllideb, ac roedd trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd wedi'u tanseilio ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn, gyda sawl achos o dorri gweithdrefnau wrth ddefnyddio gweithrediadau tendr a hepgoriadau.
- 47.** Yn fy ngwaith dilynol ar yr argymhellion a ddeilliai o'm gwaith archwilio blaenorol ar faterion caffael, canfuwyd sawl achos o dorri gweithdrefnau o ran y defnydd o weithrediadau tendr sengl a hepgoriadau. Deuthum i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi torri rheolaethau mewnol wrth ddyfarnu amryw o gontractau. Yn benodol, canfûm y canlynol:
- Nad oedd y weithdrefn ar gyfer rhoi heibio Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael ei gweithredu'n briodol bob tro.
 - Bod staff y Bwrdd Iechyd wedi mynd yn groes i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynllun Dirprwyo ffurfiol y Bwrdd wrth awdurdodi rhoi heibio Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
 - Y dylai staff y Bwrdd Iechyd, ar adegau, fod wedi ystyried tendrau drwy weithdrefnau caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU); roedd tri achos yn mynd heibio i drothwy'r OJEU, a phedwerydd mewn perygl o wneud hynny.
 - Er i staff y Bwrdd Iechyd roi rhesymau dealladwy, o bosib, am yr achosion a nodwyd o fynd yn groes i'r cyfarwyddiadau yn y rhan fwyaf o achosion, bod cyfleoedd i wella tryloywder y broses benderfynu.

-
- Bod diffygion yn Null Olrhain Argymhellion y Pwyllgor Archwilio yn achosi gwallau wrth roi sicrwydd ynghylch gweithredu fy argymhellion caffael blaenorol, ond bod gwaith yn mynd rhagddo'n dda o fewn y Bwrdd lechyd i ddiwygio'r broses hon.
48. Mae osgoi gweithdrefnau caffael yn tanseilio safonau proffesiynol a llywodraethu da, ac yn creu risg i enw da'r Bwrdd lechyd. Er i staff y Bwrdd lechyd roi rhesymau dealladwy, o bosib, am yr achosion o dorri gweithdrefnau a nodwyd, canfûm yn y rhan fwyaf o achosion gyfleoedd i atgyfnerthu'r llywodraethu a gwella tryloywder penderfyniadau.
 49. Adroddodd yr Adran Archwilio Mewnol hefyd rai gwendidau o fewn y system y mae angen camau rheoli parhaus yn gysylltiedig â hwy. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu i gryfhau'r gwendidau rheolaethol a nodwyd yn yr adroddiadau hyn ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar gynnydd.
 50. Deuthum hefyd i'r casgliad fod y trefniadau ar gyfer monitro a rheolaeth gyllidebol yn ddigon cadarn i roi sicrwydd inni fod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad o bwys. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd lechyd fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol sydd o'i flaen yn 2015-16 a thu hwnt. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol yn [Adran 2](#) yr adroddiad hwn.

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

51. Mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Cyflawnais amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd lechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:
 - adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd, gan gynnwys y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at sicrhau cydbwysedd ariannol;
 - asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r Bwrdd lechyd drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed mewn meysydd gwella a nodwyd ers y llynedd, a'm gwaith ar y cyd ag AGIC;
 - gwaith manwl ar y defnydd o adnoddau ym maes rheoli meddyginiaeth, gwaith dilynol ar apwyntiadau i gleifion allanol ac adolygiadau archwilio lleol, sy'n cynnwys capasiti TGCh; ac
 - asesu cynnydd y Bwrdd lechyd wrth ymdrin â'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar arlwy a maeth cleifion, gwaith dilynol ar anghysondebau caffael ([paragraffau 38-41](#)), ac adolygu trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol.
52. Ceir crynodeb o'm prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

Nid yw cynlluniau arbed ond yn ymdrin â chyfran o'r diffyg ariannol. Rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae'n annhebygol iawn y bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2015-16.

Roedd y pwysau ariannol yn gynyddol anghynaliadwy yn 2014-15, gan arwain at fethiant y Bwrdd i sicrhau cydbwysedd ariannol.

- 53.** Mae'r GIG yng Nghymru wedi wynebu heriau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda setliadau 'arian parod' a chynnydd yn y galw am wasanaethau. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd cyfundrefn gyllid fwy hyblyg ar gyfer y GIG yng Nghymru drwy Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Gosodai'r ddeddf hon ddyletswydd ariannol gyfreithiol newydd i fyrddau iechyd lleol fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ariannol dreigl yn hytrach na phob blwyddyn. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau, y gweithlu a chyllid, a gweithredu dros gyfnod hirach, haws ei reoli. Mae'n symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn sy'n annog penderfyniadau byrdymor o amgylch y flwyddyn ariannol. Mae'r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi CTCI digon cadarn, ac ar gymeradwyaeth ffurfiol i'r cynlluniau hynny gan Weinidogion Cymru.
- 54.** Dylai'r Bwrdd Iechyd elwa ar yr hyblygrwydd ychwanegol a geir yn sgil y Ddeddf, ond ni lwyddodd i gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol, sef sefydlu CTCI tair blynedd cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2014-15 i 2016-17. Nododd Llywodraeth Cymru bryderon sylweddol ynghylch y CTCI a gynigiwyd ac a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd yn nhymor y gwanwyn 2014, felly ni roddodd gymeradwyaeth y Gweinidogion ar ei gyfer. Gwrthodwyd y Cynllun gan nad oedd yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, ac ystyriai'r Llywodraeth fod angen gwneud llawer o waith pellach i ymdrin â'r heriau'n gysylltiedig â gwasanaethau, adnoddau a pherfformiad. Roedd y Bwrdd felly'n torri'r ddyletswydd statudol newydd hon.
- 55.** Yn lle hynny, datblygodd y Bwrdd Iechyd 'Gynllun Blwyddyn' ar gyfer 2014-15 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2014. Roedd y cynllun blwyddyn o hyd ar gyfer 2014-15 yn tynnu sylw at yr heriau aruthrol a wynebai'r Bwrdd Iechyd o ran rheoli a chynllunio ariannol. Nodai fwlch ariannol o fwy na £75 miliwn rhwng ei derfyn adnoddau blynyddol a'r gwariant net yr oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2014-15.
- 56.** Drwy gydol 2014-15, cadwodd y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru olwg fanwl ar yr adroddiad alldro misol ac ar y diffyg oedd yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai'r rhagolygon yn cael eu diweddar'u rheolaidd ac, yn unol â'r arfer, cyflwynodd Llywodraeth Cymru addasiadau amrywiol i derfyn adnoddau'r Bwrdd Iechyd i adlewyrchu gweithgareddau penodol cytunedig a gyflawnwyd, a chostau'r gweithgareddau hynny. Yn ystod y flwyddyn, adroddodd y Bwrdd Iechyd newidiadau a gynrychiolai ddirywiad sylweddol i'r rhagolygon ar gyfer sefyllfa ariannol 2014-15.

-
- 57.** Yn 2014-15, £1.308 biliwn oedd cyfanswm gwariant net y Bwrdd Iechyd. Ei ddyraniad adnoddau refeniw terfynol oedd £1.281 biliwn, gan olygu gorwariant o £26.6 miliwn wedi'i adrodd yn erbyn ei ddyraniad refeniw. Sicrhodd y Bwrdd Iechyd arbedion o £41.9 miliwn, ond roedd hyn yn llawer is na'i darged arbedion o £91.7 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Bu £35 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn fodd i liniaru effaith y diffyg mewn arbedion, ac fe gyfrannodd pwysau costau net ychwanegol at y gorwariant o £26.6 miliwn a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal heb sefydlu dull cadarn a chynaliadwy o reoli arian yn 2015-16, ac fe geir risg sylweddol iawn na fydd yn sicrhau cydbwysedd ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, ac y bydd ganddo ddiffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn.

- 58.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn 2015-16. Yn ei Gynllun Ariannol Blynyddol Dros Dro ar gyfer 2015-16, nodwyd gofyniad o fwy na £42.8 miliwn mewn arbedion, a bwloch ariannol pellach o £14.7 miliwn rhwng ei ddyraniad adnoddau blynyddol a'r gwariant net a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2015-16.
- 59.** Yn ystod pedwar mis cyntaf 2015-16, parhaodd rhagolygon y Bwrdd Iechyd o'i ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol honno yn gyson ar £14.2 miliwn. Ar ôl hynny, cydnabu'r Bwrdd Iechyd fod ei sefyllfa ariannol wedi dirywio a newidiodd ei orwariant blynyddol 'mwyaf tebygol' ar ddiwedd y flwyddyn i £30 miliwn ym mis Awst 2015.
- 60.** Drwy'r gwaith a gyflawnais ar y cyd ag AGIC ym mis Medi, nodwyd bod angen dull trawsnewidiol o gynllunio gwasanaethau, fel y mae sefyllfa ariannol heriol y Bwrdd Iechyd yn ei ddangos, a bod diffyg tebygol o £19 miliwn ar hyn o bryd yn cael ei ragweld ar gyfer blynyddyn ariannol 2015-16. Mae'n galonogol gweld datblygiadau i'r dull a ddefnyddir bellach i reoli arbedion yn ystod y flwyddyn, drwy gyflwyno'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni, er ei bod hi'n annhebygol y bydd cynlluniau arbed cyfredol yn gwneud iawn am y diffyg a ragwelir. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am ddull mwy trawsnewidiol, yn hytrach na thrafodaethol, fel y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i gydnabod eisoes.
- 61.** Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2015, rhagwelai'r Bwrdd Iechyd mai ei orwariant blynyddol mwyaf tebygol oedd £19 miliwn, gan gynnwys y £10 miliwn o gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod gaeaf 2015. Yr oedd yn cydnabod y byddai cyflawni'r rhagamcan diwygiedig o'r diffyg yn dal i fod yn her aruthrol, yn enwedig gan nad oedd cynlluniau arbed digonol wedi'u nodi a'u cyflawni hyd yma. Ym mis naw, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi gwerth £36.9 miliwn o gynlluniau arbed i ryddhau arian parod, o gymharu â'i darged arbed blynyddol o £42.8 miliwn. Er bod hyn yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r arbedion sydd eu hangen, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod ei bod hi'n bosibl na fydd £12 miliwn o'r cynlluniau arbed a nodwyd yn cael eu cyflawni. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2015, adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod hyd hynny wedi cyflawni rhan helaeth o'r arbedion a gynlluniwyd ganddo i ryddhau arian parod.

-
- 62.** Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd ar ei hôl hi wrth gyflawni ei gynlluniau i ostwng costau. Ceir pwysau ariannol sylweddol o hyd yn y gwasanaethau iechyd meddwl, anabledau dysgu a gwasanaethau merched, ac amrywiaeth o bwysau ychwanegol ar gostau, gan gynnwys costau asiantaeth misol (meddygol a nyrsio) ar draws yr holl safleoedd gofal eilaidd i lenwi cyfnodau o absenoldeb neu i ymdrin â phroblemau ansawdd a diogelwch. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn wynebu pwysau ychwanegol o ran costau yn sgîl comisiynu arbenigol a chontractau gofal iechyd eraill.
- 63.** Nid yw'r cynlluniau arbed a nodwyd yn debygol o fod yn ddigon i bontio'r bwch ariannol yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol. Mae'n hanfodol i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod unrhyw gamau byrdymor i sicrhau arbedion i leihau ei heriau ariannol yn amharu ar iechyd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. Bydd angen iddo hefyd sicrhau nad yw mesurau arbed byrdymor yn amharu ar ddiogelwch clinigol nac yn amharu ar fynediad y rhai a chanddynt yr angen clinigol mwyaf at wasanaethau.
- 64.** O edrych ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol digynsail yn y tymor canolig - yn ei Strategaeth Gyllidebol flynyddol ar gyfer 2015-16 rhagwelir heriau ariannol cynyddol, fydd yn tyfu i fwch ariannol o £89 miliwn yn 2016-17. Mae angen datblygu modelau gwasanaeth ar frys sy'n gynaliadwy o safbwynt ariannol a chlinigol, a chyflawni gwaith pellach hefyd i integreiddio gwasanaethau cefnogi. Ni chafwyd rhyw lawer o gynnydd hyd yma yn gysylltiedig â hyn.

Mae llawer o waith ar y gweill i wella llywodraethu, ond mae rhai heriau sylfaenol yn parhau y mae angen eu datrys ar frys.

- 65.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau ynghylch sicrwydd llywodraethu a'r bwrdd, a gyflwynir o dan y themâu canlynol:
- Cynllunio strategol
 - Strwythur trefniadol
 - Effeithiolrwydd y bwrdd a gwybodaeth reoli
 - Strwythurau llywodraethu a rheoli risg
 - Rheolaethau mewnol
 - Llywodraethu Gwybodaeth
 - Rheoli perfformiad

Gan nad oes strategaeth gytunedig ar gyfer gwasanaethau clinigol, ac er gwaethaf peth cynnydd, y mae'n parhau i fod yn annhebygol iawn y bydd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa i gyhoeddi CTCI yn 2016

- 66.** Ers blynyddoedd, rwyf wedi cyfeirio yn fy adroddiadau cydadolygu, a'm hadroddiadau ar yr asesiad strwythuredig, at yr angen i greu cynlluniau clinigol ac ariannol gynaliadwy er mwyn llunio gwasanaethau iechyd y dyfodol yng Ngogledd Cymru. Er hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal heb strategaeth ar gyfer gwasanaethau clinigol.

-
- 67.** Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd greu CTCl tair blynedd cytunedig ar gyfer 2015, o fewn y terfyn amser gofynnol. Er i'r Bwrdd Iechyd greu CTCl drafft, ni chafodd hwnnw ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn trafodaethau cychwynnol, gan nad oedd yn bodloni pob agwedd ar y gofynion ar gyfer CTCl. Mae diffyg cynllun tymor canolog cyffredinol clir a chymeradwy yn amharu'n ddifrifol ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni gwaith angenrheidiol er mwyn gwella a moderneiddio gwasanaethau. Mae'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn dal yn y sefyllfa hon yn destun pryder.
- 68.** Yn y gwaith a gyflawnais ar y cyd ag AGIC ym mis Medi, cydnabuwyd bod gwaith wedi'i gyflawni i ddatblygu gweledigaeth a nodau strategol y Bwrdd Iechyd. Er bod y camau hyn yn rhai pwysig, roedd y Bwrdd Iechyd yn dal ymhell o fod yn gallu greu CTCl ar gyfer 2016-17 i 2018-19, fel sy'n ofynnol yn Fframwaith Cynllunio'r GIG Llywodraeth Cymru. Roedd angen o hyd am strategaethau a chynlluniau clir a manwl ar draws y sectorau amrywiol syn sail i'r CTCl, ac am y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd fyddai ei angen i gyd-fynd â hynny. Deuthum i'r casgliad y byddai angen cynnal arfarniad gonest er mwyn canfod a oes gan y Bwrdd Iechyd y sgiliau a'r gallu angenrheidiol ar hyn o bryd i fynd rhagddo â'r gwaith hwn. Dylid ymdrin ag unrhyw fylchau fyddai'n cael eu nodi yn yr arfarniad hwnnw fel mater o frys.
- 69.** Yn fy ngwaith cynllunio strategol yn rhan o'r asesiad strwythuredig, canfûm arwyddion o gynnydd, a ddylai osod seiliau pwysig er mwyn datblygu CTCl yn y dyfodol, a chynllun gweithredol ar gyfer 2016-17. Ceir cryn her o ran ymgysylltu, gan greu perygl mawr na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gwneud cynnydd digonol i gyflawni cynllun wedi'i gymeradwyo yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod maint yr her, a dywedodd yn ddiweddar wrth y Bwrdd Iechyd na fyddai'n disgwyl i'r Bwrdd Iechyd greu CTCl ar gyfer 2016-17 i 2018-19. Serch hynny, mae'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd greu cynllun gweithredol cyhoeddus, hyd yn oed os nad yw hwnnw'n cyfleu holl ofynion CTCl ffurfiol yn llawn. Mae cynllun gweithredol o'r fath yn cynrychioli cam pwysig ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd greu cynllun blwyddyn o hyd y gellir ei gymeradwyo ar gyfer 2016-17.
- 70.** Yn fy marn i, ni ellir rhoi gormod o bwyslais ar sicrhau bod gwaith cynllunio strategol yn cael ei gyflawni yn y dull cywir, heb frysio, gan sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd. Bydd hi'n cymryd amser a gwaith ymgysylltu parhaus i gyfleu a chytuno ar y gwaith trawsnewid angenrheidiol.
- 71.** Nodais fod rhai elfennau o'r fframwaith cynllunio wedi'u datblygu ymhellach nag elfennau eraill, ac mai'r her fwyaf sylweddol oedd diffyg strategaeth glinigol gytunedig. Derbynnir na fydd y strategaeth honno wedi'i chreu ar gyfer cynllun 2016-2019, er y bydd y cynllun newydd yn pennu'r dull a'r amserlen er mwyn ei datblygu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn fwy hyderus ynghylch ei allu i ddatblygu cynlluniau mwy eglur ar gyfer anghydraddoldeb iechyd, gwasanaethau gofal sylfaenol ac yn y gymuned, a gwasanaethau iechyd meddwl.

-
- 72.** Mae hyn oll wedi'i amlinellu yn amserlen gynllunio lefel uchel y Bwrdd Iechyd, sy'n trafod gweithgarwch ymgysylltu helaeth yn ogystal â datblygu a chymeradwyo'r cynllun. Mae maint y tasgau'n sylweddol, heb ganiatáu rhyw lawer o lithriant. Bach yw capasiti'r tîm cynllunio canolog, gan ddibynnu'n fawr ar y timau gofal eilaidd ac ardal newydd i ddatblygu blaenoriaethau a chynlluniau cyflawni gweithredol. Bydd gweithredu strwythurau trefniadol newydd yn cynyddu gallu'r timau hyn i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai capasiti a chefnogaeth gynllunio ychwanegol yn cael eu cyflwyno, yn rhan o'r mesurau arbennig.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod ar ganol gweithredu strwythur trefniadol diwygiedig, ac yn wynebu heriau'n gysylltiedig â chapasiti gweithredol a'r gallu i gadw rheolaeth ar berfformiad ac arian o fewn y strwythurau dros dro.

- 73.** Rwyf eisoes wedi nodi sawl pryder ynghylch strwythur trefniadol gwreiddiol y Bwrdd Iechyd a oedd yn seiliedig ar Grŵp Rhaglen Glinigol. Yn ystod 2014 ymgynghorodd y Prif Weithredwr blaenorol ar gynlluniau i weithredu strwythur trefniadol a oedd wedi'i ddiwygio'n sylweddol. Nod y strwythur fyddai atgyfnerthu'r trefniadau rheoli ar safle'r tri ysbyty aciwt. Dechreuodd gwaith i weithredu'r strwythur trefniadol newydd ym mis Mai 2015.
- 74.** Fodd bynnag, ar ôl gorfodi mesurau arbennig a gwahardd y Prif Weithredwr blaenorol o'i swydd, nododd tîm y weithrediaeth sawl pryder ynghylch budd y strwythur newydd o ran costau, ac ynghylch rhai llinellau atebolrwydd o fewn y strwythur hwnnw. Penderfynwyd cymryd 'saib' tra'r oedd gwaith pellach yn cael ei gyflawni er mwyn cael atebion a sicrwydd ynghylch y pryderon a godwyd.
- 75.** Wrth gyflawni fy ngwaith ar y cyd ag AGIC ym mis Medi, cydnabuwyd pwysigrwydd ymdrin â'r materion a godwyd. Fodd bynnag, amlygwyd hefyd ein pryder bod y Bwrdd Iechyd yn ei gael ei hun yn y sefyllfa annymunol o orfod archwilio agweddau sylfaenol ar y strwythur newydd, a hynny ar adeg pan yr oedd angen iddo fod yn ymwreiddio'r strwythur newydd ac yn grymuso'r rhai a chanddynt rolau newydd o fewn y strwythur hwnnw er mwyn sicrhau newid yn ddigon cyflym.
- 76.** Yn fwy diweddar, ailgychwynnodd y Bwrdd Iechyd y gwaith i weithredu'r strwythur trefniadol newydd, ac wrth llunio fy adroddiad archwilio blynyddol, yr oedd ar ganol recriwtio unigolion i swyddi yn y strwythur newydd. Mae'n bwysig i'r gwaith hwn fynd rhagddo ar y cyflymder angenrheidiol er mwyn cael gwared â'r ansicrwydd fu'n gysylltiedig â'r uwch reolwyr a'r rheolwyr canol niferus oedd yn gweithio mewn rolau dros dro.
- 77.** Absenoldeb Prif Weithredwr sylweddol a pharhaol yw'r bwlch amlycaf yn strwythur rheoli'r sefydliad, ar ôl gorfodi mesurau arbennig ym mis Mehefin 2015. Mae'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru'n llwyr gydnabod ei bod hi'n hollbwysig penodi unigolyn â'r gyfres sgiliau a'r profiad cywir. Wrth ddrafftio'r adroddiad hwn, roedd cynlluniau recriwtio er mwyn cael hyd i Brif Weithredwr newydd yn mynd rhagddynt yn dda.

78. Ar ben hynny, ceir ansicrwydd o hyd ynghylch sut y caiff yr holl swyddi o fewn y strwythur newydd eu hariannu, sy'n ychwanegu at y pwysau o ran costau. Ni cheir sicrwydd ychwaith ynghylch i bwy y bydd rhai swyddogaethau cefnogi clinigol yn atebol. Mae angen ymwreiddio swyddogaethau galluogi eraill, fel technoleg gwybodaeth, gwella gwasanaethau, cynllunio, y gweithlu a llywodraethu, yn gyson o fewn y strwythurau newydd. Fel arall, bydd eu gallu i ddylanwadu a chefnogi newid yn parhau i amrywio, a gallai hynny rwystro'r cynnydd cyflym sydd ei angen ar draws pob un o'r meysydd hyn.

Er gwaethaf y cynnydd ar draws sawl maes, yn enwedig gwybodaeth reoli, mae angen gwneud gwaith pellach i wella effeithiolrwydd y Bwrdd.

- 79.** Mae'r gefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd drwy fesurau arbennig wedi dangos bod ar y Bwrdd lechyd angen cymorth o hyd gyda rhai agweddau sylfaenol ar lywodraethu, yn enwedig o ran effeithiolrwydd y Bwrdd.
- 80.** Er bod penodi'r unigolyn cywir i gyflawni rôl y Prif Weithredwr yn hollbwysig, ni all deilydd y swydd ond llwyddo os yw'n aelod o fwrdd cydlynol ac o dîm rheoli gweithredol a chanddynt y gyfres sgiliau a'r capasiti cywir. Dangosai'r gwaith a gyflawnais ar y cyd ag AGIC ym mis Medi fod y Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu llu o broblemau'n gysylltiedig â'r maes hwn. Er gwaethaf y gweithgareddau datblygu amrywiol a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf, dangosai ein cyfweiliadau a'n harsylwadau fod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn. Bydd gwaith i nodi'r gyfres o sgiliau sydd eu hangen ar aelodau'r Bwrdd yn hollbwysig yn hyn o beth. Bydd yn rhaid i'r arfarniad hwn fod yn un gonest, a bydd yn rhaid ei ddefnyddio i ganfod beth sydd wrth wraidd y problemau sy'n parhau i amharu ar gydlynrwydd y Bwrdd a'i allu i wneud penderfyniadau mewn modd effeithiol.
- 81.** Cwblhawyd y cynlluniau 100 diwrnod dros yr haf, a chyflawnwyd gwaith pellach i ddatblygu'r Bwrdd yn nhymor yr hydref 2015. Mae'n rhy fuan i farnu ynghylch effeithiolrwydd y gwaith hwn a gyflawnwyd yn ddiweddar iawn er mwyn gwella effeithiolrwydd y Bwrdd, a byddaf yn parhau i adolygu hyn yn 2016.
- 82.** Yn rhan o'm gwaith ar yr asesiad strwythuredig, archwiliais yr wybodaeth reoli a dderbyniwyd gan y Bwrdd yn fanylach, yn enwedig yr wybodaeth oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad integredig ar berfformiad. Yn gadarnhaol, gwelais fod yr ymdriniaeth â meysydd perfformiad allweddol, ynghyd â chyflwyniad ac eglurder adroddiadau integredig, wedi gwella o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Ar ben hynny, mae arddull, fformat a chynnwys adroddiadau integredig ar berfformiad o fewn y Bwrdd lechyd wedi gwella'n sylweddol, ac erbyn hyn yn cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru.
- 83.** Er hynny, mae lle i wella'r ymdriniaeth â meysydd gwasanaeth allweddol, ynghyd â rhai agweddau eraill ar adroddiadau integredig. Ceir heriau penodol yn gysylltiedig â'r ymdriniaeth â rhagolygon perfformiad, ac o ran sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth ddigonol am berfformiad meysydd gwasanaeth pwysig, fel gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl, lle ceir rigiau penodol iddo, a lle bo diffygion blaenorol wrth adrodd ar berfformiad yn debygol o fod wedi cyfrannu at sefyllfa lle nad oedd y Bwrdd yn gweld bod perfformiad yn dirywio.

Mae mwy o waith i'w wneud o hyd i weithredu ac ymwreiddio strwythurau llywodraethu a threfniadau rheoli risg cadarn, yn enwedig o ran dylunio a gweithredu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ailystyried strwythur is-bwyllgorau'r Bwrdd a sicrhau bod yr is-bwyllgorau hynny'n gweithredu'n effeithiol.

84. Mae'r Bwrdd lechyd wedi derbyn cyngor a chefnogaeth allanol sylweddol wrth ddiwygio ei strwythurau llywodraethu a'i drefniadau rheoli risg.
85. Ym mis Medi, nodais fod gwaith hefyd ar y gweill mewn meysydd eraill a oedd yn gysylltiedig â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd, gan gynnwys ail-lunio fframwaith sicrwydd y Bwrdd a'r gofrestr risg gorfforaethol. O gofio pwysigrwydd hanfodol yr agweddau hyn ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd, bydd angen gweithredu'n gyflym i ymwreiddio'r datblygiadau newydd. Mae angen i'r gwaith ar fframwaith sicrwydd y Bwrdd adlewyrchu newidiadau sy'n deillio o adolygiad 2016 o strwythur pwyllgorau'r Bwrdd.
86. Roedd fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn cynnwys arsylwadau mewn cyfarfodydd pwyllgor, a gwn fod y Bwrdd lechyd yn mynd rhagddo â'r gwaith hwnnw i lunio drafft o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Rheoli Risg ym mis Gorffennaf 2015, ac mae gwaith yn parhau i fapio risg drwy'r holl strwythurau llywodraethu. Gwaith ar y gweill yw'r rhan helaeth o'r gwaith ailddatblygu wrth imi lunio'r adroddiad hwn, felly mae'n rhy fuan i gynnig sylwadau archwilio ffurfiol ar hyn o bryd.

Mae'r rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan wrth fodloni gofynion sicrwydd cyfredol, ond er eu bodolaeth, nid yw'r rheolaethau hynny bob amser yn cael eu gweithredu mewn modd cyson.

87. Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu'r ystod eang o reolaethau mewnol sydd eu hangen fel arfer yn rhan o gyfres gadarn o drefniadau llywodraethu. Mae'r rheolaethau hyn yn effeithiol gan amlaf, ac fe geir agweddau cryf a chadarnhaol. gan gynnwys Archwilio Mewnol, Atal Twyll a pholisïau a gweithdrefnau seiliedig ar dystiolaeth.
88. Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (CASau) a Rheolau Sefydlog (RSau) ar waith, ond wrth fynd ar drywydd anghysondebau caffael gwelais nad oedd bodolaeth rheolaethau mewnol bob amser yn sicrhau bod staff y Bwrdd lechyd yn dilyn y prosesau angenrheidiol. Mewn adolygiadau Archwilio Mewnol o'r graddau y cydymffurfir â threfniadau llywodraethu gweithredol, codir pryderon nad yw'r rheolwyr bob amser yn dilyn y CASau a'r RSau yn llawn. Codir pryderon ehangach posibl yn gysylltiedig â'r mater hwn, ac yn rhan o weithrediad y strwythurau trefniadol newydd bydd angen i'r Bwrdd lechyd ei sicrhau ei hun fod yr holl staff a gyflogir yn cymhwyso rheolaethau mewnol fel bo'n ofynnol yn ei CASau a'i RSau.

Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth gweithredol yn parhau i wella'n gyson ar draws y rhan fwyaf o feysydd, ond mae angen datrys y diffyg eglurder ynghylch sicrwydd y Bwrdd a llinellau adrodd ar fyrder

89. Ar lefel weithredol mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau llywodraethu gwybodaeth clir, a llinellau atebolrwydd ac adrodd priodol. Fodd bynnag, wrth ad-drefnu Pwyllgorau'r Bwrdd, cafwyd gwared â'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth. Mae Llywodraethu Gwybodaeth a gwybodeg bellach wedi'i rannu'n ehangach ar draws tri is-bwyllgor sydd yn gweithredu o dan y Pwyllgor Llywodraethu Integredig. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o faterion llywodraethu, ond nid pob un ohonynt, bellach yn cael eu trafod gan yr is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, ac fe gydnabyddir bod gan yr is-bwyllgor hwnnw lwyth gwaith heriol. Efallai y byddai modd datrys y diffyg eglurder ynghylch y cyfrifoldeb am bapurau, adroddiadau a chraffu y maes llywodraethu gwybodaeth a gwybodeg drwy brofiad, wrth i'r strwythur pwyllgorau newydd ennill ei blwyf. Byddaf yn parhau i adolygu hyn yn 2016.

Dechreuodd trefniadau newydd a mwy trylwyr ar gyfer rheoli perfformiad ddod i rym yn 2015, ond mae capasiti yn parhau i fod ymhlith y prif ffactorau sy'n atal gwelliant cynaliadwy, ac mae perfformiad ar ddangosyddion allweddol yn parhau i amrywio.

90. Cyflwynodd y Bwrdd lechyd strategaeth rheoli perfformiad newydd o fis Ebrill 2015. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad newydd yn seiliedig ar fodolau lwyddiannus a ddefnyddiwyd yn rhannau eraill o'r DU, ac yn ddibynol ar gyfarfodydd atebolrwydd rheolaidd er mwyn cael mwy o afael ar faterion gweithredol. Mae'r cyfarfodydd atebolrwydd a gynhelir bob mis, (ac eithrio'r misoedd pan gynhelir adolygiadau chwarterol) yn cael eu harwain gan y Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Swyddogion Gweithredol Clinigol. I atgyfnerthu'r cyfarfodydd atebolrwydd hyn, mae'r Swyddog Gweithredol Sicrwydd Ansawdd yn goruchwyllo meysydd ansawdd a diogelwch allweddol, ac mae'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cyfarfod bob wythnos. Mae dull Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn tanategu ac yn atgyfnerthu trefniadau rheoli perfformiad adfywiedig y Bwrdd lechyd.

91. Mae datblygu'r dull hwn i ategu'r trefniadau arferol ar gyfer rheoli perfformiad yn gam cadarnhaol, gan ei fod yn rhoi capasiti ac arbenigedd ychwanegol i'r Bwrdd lechyd ym maes rheoli rhaglenni a phrosiectau, y ceir angen mawr amdanynt. Fodd bynnag, nid oes gan y sefydliad eto gapasiti mewnol tebyg nac arbenigedd i ganolbwyntio ar y prosiectau trawsnewid graddfa fwy (a thymor hwy). Ceir risgiau'n gysylltiedig a'r model hwn, yn enwedig o ran gallu a chapasiti meysydd gwasanaeth i gyflawni newid yn ychwanegol at eu llwyth gwaith arferol.

-
- 92.** Wrth archwilio'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn targedau perfformiad allweddol, gwelir bod perfformiad wedi gwella mewn rhai meysydd, er bod y darlun cyffredinol yn dal i amrywio'n helaeth. Mae'r hwb a roddwyd yn sgil mesurau arbennig, y cynlluniau 100 diwrnod a'r Prif Weithredwr Dros Dro yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar sawl maes allweddol:
- rheoli heintiau - cafwyd gostyngiad eto i'r cyfraddau C.difficile yn 2015, er bod y cyfraddau hynny'n dal yn uchel o'u cymharu â gweddill Cymru;
 - gwelwyd gwelliant cyson a pharhaus gyda dangosyddion atal, fel cyfraddau brechu, yn ystod 2015, er bod y cyfraddau hyn yn aml heb gyrraedd lefelau targed Llywodraeth Cymru;
 - mae'r perfformiad o ran strôc yn dal i fod yn chwarter uchaf y DU gyfan;
 - y perfformiad o ran canser yw'r gorau yng Nghymru; a
 - dangosai rhai metrigau ansawdd a diogelwch, fel hanfodion gofal, welliant yn gynnar yn 2015 wrth i nyrsys ddechrau swyddi newydd.
- 93.** Mae'r perfformiad yn erbyn nifer o dargedau allweddol eraill Llywodraeth Cymru'n parhau i aros yn ei unfan. Er enghraifft, mae'r amseroedd aros ar gyfer diagnosteg, atgyfeirio i driniaeth (26 wythnos a 52 wythnos), a'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn parhau i fod yn is na thargedau Llywodraeth Cymru a thargedau mewnol. Amrywiai'r mesuriadau hyn drwy gydol 2015, gan wella mewn rhai misoedd a dirywio mewn misoedd eraill.
- 94.** Gwelwyd dirywiad mewn ystod eang o ddangosyddion perfformiad yn chwarter cyntaf 2015, ond ni welir y duedd gyffredinol hon mwyach. Er na cheir dirywiad cyffredinol mewn perfformiad ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan mwyach, mae'r gwelliant mewn rhai meysydd yn cuddio dirywiad mewn meysydd eraill. Er enghraifft, mae'r arosiadau mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (pedair awr a 12 awr) yn amrywio o'r naill fis i'r nesaf, a rhwng y tri safle. Bydd angen i'r Bwrdd ddeall y rhesymau dros y gwahaniaeth hwn mewn perfformiad, a sicrhau bod yr hyn a ddysgir ar safleoedd sy'n gwella yn cael ei drosglwyddo'n gyflym ar draws Gogledd Cymru.

Wrth archwilio'r ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau, canfûm fod heriau yn gysylltiedig â chapasiti, gallu a gwytnwch yn amharu ar y gallu i gyflawni newid yn ddigon cyflym.

- 95.** Yn rhan o'm gwaith ar yr Aseiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Mae'r gwaith hwn wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd mewn sawl maes sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau a amlygwyd gennyf yn Aseidiadau Strwythuredig yn y blynyddoedd cynt, yn enwedig o ran deall yr heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu a'i ystâd. Er hynny, y mae ar ganol ennyn hyder o'r newydd ymhlith y cyhoedd a rhanddeiliaid, ac nid yw eto wedi adeiladu capasiti digonol i reoli newid. Mae'r lefel is o fuddsoddiad mewn technoleg na'r hyn a geir yng ngweddill Cymru hefyd yn amharu ar ei ddefnydd ohono. Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn [Arddangosyn 2](#).

Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig - ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Y gallu i reoli newid	<p>Cefais fod yr arbenigedd i reoli newid yn wasgaredig o hyd ar draws gwahanol swyddogaethau, ac nad oes digon o arbenigedd na chapasiti mewnol i gefnogi'r arweinwyr gweithredol a chlinigol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo newid ar bob lefel, ac mae mesurau arbennig yn pwysleisio'r pwynt hwnnw.</p> <p>Daw cyfleoedd newydd hefyd yn sgil y mesurau hynny, o ran y gydnabyddiaeth o'r tu allan fod angen newid y drefn, a hefyd y gefnogaeth i gyflawni'r newid angenrheidiol.</p> <p>Daw tîm y weithrediaeth ag arbenigedd o ran trosiant, ac arbenigedd ehangach o ran arferion gwaith clinigol a gweithredol amrywiol. Serch hynny, er mwyn trawsnewid gwasanaethau fel eu bod yn gweithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol, mae angen i'r arweinwyr sicrhau ymrwymiad clinigwyr a chael y capasiti i arwain newid.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo drawsnewid gwasanaethau, ac mae ganddo rywfaint o gapasiti tameidiog i gefnogi'r newid hwn. Y mae wedi cynnig ychydig o arbenigedd allanol, ond mae angen iddo benderfynu sut i sicrhau bod ganddo ddigon o arbenigedd a chapasiti i gefnogi ac ymwreiddio newid er mwyn gwireddu ei weledigaeth i wella iechyd a darparu gofal rhagorol.</p>
Cynllunio'r gweithlu	<p>Nodais gynnydd o ran recriwtio nyrsys a bydwagedd, ac o ran deall anghenion cyfredol y gweithlu meddygol. Er hynny, bydd datrys heriau hirdymor y gweithlu heb strategaeth glinigol glir, a heb reolaeth well ar yr holl grwpiau staff, yn parhau i fod yn gryn her.</p> <p>Bellach, mae gan y Bwrdd Iechyd ddiagnosis rhesymol o'r holl broblemau mawr sydd o'i flaen yn gysylltiedig â'r gweithlu yn y tymor canolig, yn enwedig o ran elfennau meddygol a nyrsio'r gweithlu. Fodd bynnag, nid yw eto'n gwybod sut i ddatrys rhai o'i broblemau recriwtio,</p> <p>ac wrth i gyflenwad y grwpiau allweddol hyn o staff brinhau ar raddfa ehangach yn y DU, bydd yn dal yn profi anhawster wrth recriwtio digon o staff i barhau i ddarparu'r modelau gwasanaeth cyfredol yn ddiogel. Mae hyn yn pwysleisio eto yr angen i feddwl yn radical am ei gynlluniau tymor canolig a buddsoddi mewn arbenigedd rheoli newid er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei weithlu cyfredol.</p> <p>Mae'r cyfraddau arfarnu wedi gwella'n sylweddol ymhlith y staff meddygol, ac ymddengys fod ailddilysu'n ysgogi'r cynnydd hwn. Mae'r cyfraddau'n siomedig ar gyfer grwpiau staff anfeddygol, sy'n codi cwestiynau ynghylch a fydd y Bwrdd Iechyd yn barod ar gyfer y trefniadau i ailddilysu nyrsys a ddechreuir yn 2016.</p>

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Ystadau ac asedau	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi profi pryderon llywodraethu yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf. Er hynny, y mae bellach mewn sefyllfa well i fynd ar drywydd anghenion datblygu ystadau sy'n bodoli ers tro byd, ochr yn ochr â datblygiad ei strategaeth ehangach.</p> <p>Bu problemau ers tro yn gysylltiedig ag ystâd y GIG yn Ngogledd Cymru, yn enwedig yr angen i gael gwared ag asbestos a datrays problemau'n gysylltiedig a rheoliadau tân yn Ysbyty Glan Clwyd. Cafwyd problemau gyda phrosiectau cyfalaf, sydd bellach yn destun ymchwiliad, ond cymerwyd camau brys i ymdrin â'r achosion, ac mae hynny wedi arwain at broses gadarnach ar gyfer cyfalaf, a gefnogir gan lawlyfr cyfalaf newydd.</p> <p>Mae'r diffyg strategaeth ystadau yn rhwystr, ond mae'n ddealladwy gan nad oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth integredig na strategaeth gwasanaethau clinigol gytunedig ychwaith. Cyn gynted ag y bydd y Bwrdd lechyd wedi cytuno ar ei strategaeth gofal sylfaenol a chymunedol a'i strategaeth iechyd meddwl, bydd modd gwneud cynnydd o ran penderfynu ynghylch gofynion buddsoddi'r ystadau yn y dyfodol.</p>
Gwaith partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid	<p>Mae'r Bwrdd lechyd ar ganol ailennyn hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid.</p> <p>Wrth wneud y Bwrdd lechyd yn destun mesurau arbennig, nododd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr angen i gysylltu o'r newydd â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.</p> <p>Yn nghanfyddiadau'r gwaith a gyflawnais ar y cyd ag AGIC ym mis Medi, cydnabuwyd bod yr uwch dîm yn fwy gweladwy ac yn ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a bod tystiolaeth galonogol yn dangos bod y Bwrdd lechyd yn gwrando'n frwd ar sylwadau a phryderon ei staff, ei bartneriaid a'r cyhoedd. Ni wnaethom amcangyfrif yn rhy isel yr heriau'n gysylltiedig â hyn, o ran ailsbarduno sefydliad fu'n destun beirmiadaeth allanol sylweddol, gan geisio adennill hyder y cyhoedd a gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ffurf gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol. Wrth gwrs, bydd angen dangos bod y Bwrdd lechyd, ar ôl gwrando, yn cymryd y camau priodol er mwyn ymateb i'r materion a godwyd ac i ymwreiddio dulliau cynaliadwy o ymgysylltu'n fewnol ac yn allanol yn y dyfodol.</p> <p>Dros dymor yr haf 2015, rhoddodd y Bwrdd lechyd strategaeth ymgysylltu newydd ar waith a ganolbwytiai ar wrando. Bu'r cynllun 100 diwrnod ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu o gymorth i ganolbwytio a dangos bod camau gwirioneddol wedi'u cymryd. Parhaodd y gwaith hwn yn nhymor yr hydref, pan gyhoeddwyd y nodau strategol a'r weledigaeth yn ffurfiol.</p>

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Defnydd o dechnoleg	<p>O gymharu â byrddau ieuchyd eraill yng Nghymru, y Bwrdd Iechyd sydd yn buddsoddi'r lleiaf mewn TGCh. Serch hynny, mae'r tîm Gwybodeg yn parhau i gyflawni'n weithredol, ac mae ganddo gynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda.</p> <p>Yn weithredol, ar lefel leol, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd cyson o ran cyflenwi gwasanaeth technegol sefydlog, ac yn cyflawni cynlluniau buddsoddi cymedrol.</p> <p>Tynnai fy adolygiad o gapasiti TGCh sylw at y ffaith mai'r lefel gyfredol o fuddsoddiad mewn TGCh o fewn y Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru. Mae cyfanswm y gwariant ar TGCh, sef 0.61 y cant, neu £7.5 miliwn yn 2013-14, yn is na'r ddau y cant o gyfanswm gwariant referniw a argymhellir, a dyma'r lefel isaf o wariant yng Nghymru. Canfûm hefyd fod y lefelau staff ar gyfer TGCh yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru, a bod ymrwymiad y Bwrdd Iechyd at TGCh yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw systemau gwybodaeth wedi'u hintegreiddio'n dda, ac mae canfyddiad meddygon ynghylch y cyfleusterau TG gyda'r mwyaf negyddol yng Nghymru.</p>

Yn fy ngwaith arall ar berfformiad, tynnwyd sylw at y ffaith bod amrywio mewn arferion ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn her, er y cafwyd rhai arwyddion o gynnydd yn ystod y misoedd diwethaf.

96. Cyflawnais sawl adolygiad mandadol o berfformiad ar raddfa Cymru gyfan eleni, a ganolbwyntiai ar risgiau allweddol a nodwyd ar draws GIG Cymru. Yn rhan o hynny, cynhwyswyd adolygiadau lleol o drefniadau yn dilyn argymhellion, gyda rhywfaint o waith manwl lleol i brofi a oedd argymhellion wedi'u gweithredu. Ceir crynodeb isod o'm casgliadau o'r gwaith hwn.

Ceir arweinyddiaeth ac adnoddau da ar gyfer rheoli meddyginiaethau, er bod rhwystrau trefniadol yn cyfyngu ar y gallu i ymgysylltu ar raddfa ehangach ar draws y Bwrdd Iechyd. Ceir hefyd anghydraddoldeb ar draws safleoedd a lle i wella'r trefniadau ar gyfer storio a monitro perfformiad yng nghyswllt meddyginiaethau, a nifer o brosesau allweddol i reoli meddyginiaethau.

- 97.** Cyflawnwyd fy ngwaith ar reoli meddyginiaethau cleifion mewnol yn gynnar yn 2015, cyn dechrau ad-drefnu'r sefydliad. Cynhaliwyd fy astudiaeth yn dilyn fy ngwaith archwilio lleol blaenorol ym maes rhagnodi gofal sylfaenol. Canolbwyntiai ar agweddau ar reoli meddyginiaethau sy'n cael effaith uniongyrchol ar gleifion mewnol mewn ysbytai aciwt. Trafodai wybodaeth am feddyginiaethau a ddarperir gan feddygon teulu i gefnogi derbyniadau, adolygiadau a gynhelir o feddyginiaethau cleifion yn ystod eu harhosiad, y gefnogaeth a roddir i gleifion er mwyn cymryd eu meddyginiaethau a'r trefniadau i sicrhau rheolaeth dda ar feddyginiaethau ar ôl rhyddhau cleifion. Nid oedd yn trafod caffael, na rhyw lawer am gyflenwi meddyginiaethau. Nodir isod fy nghasgliadau ynghylch effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau fferyllol aciwt.
- 98.** Canfûm fod arweinyddiaeth rheoli meddyginiaethau yn dda, ond bod diffyg strategaeth ffurfiol a rhwystrau trefniadol yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd ehangach. Dyma'r rhesymau am hynny:
- Ceir arweinyddiaeth ac ymgysylltu clinigol da yng Ngrŵp y Rhaglen Glinigol, ond nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch trefniadau'r dyfodol, ac nid yw'r fferyllfa wedi'i chynrychioli ar fyrddau Grwpiau Rhaglen Glinigol eraill.
 - Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfeiriad clir ar gyfer rheoli meddyginiaethau, ond nid oes ganddo strategaeth ffurfiol hyd yma.
 - Yn debyg i fyrddau iechyd eraill, prin yw'r cyfleoedd i'r tîm fferyllol ymgysylltu'n ffurfiol ar fforymau penderfynu lefel uwch.
 - Ceir trefniadau rheolaidd i graffu ar wybodaeth ariannol, ond roedd cynlluniau arbed yn rhy uchelgeisiol ac wedi'u cyfyngu i ofal sylfaenol. Ymddengys fod dull y Bwrdd Iechyd o reoli ceisiadau unigol am gyllid oddi wrth gleifion yn wahanol i weddill Cymru, ond bydd cyfran fawr o'r ceisiadau'n derbyn y cyllid a geisir heb fod angen cynnal cyfarfod llawn o'r Panel Ceisiadau am Gyllid gan Gleifion Unigol.
- 99.** Yn rhan o'm gwaith, bûm yn meincnodi'r gwasanaeth fferyllol ac, o gymharu â llawer o fyrddau iechyd, mae'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ariannu'n dda. Mae'r gwasanaeth yn cael ei barchu gan gydweithwyr, ac mae ganddo ymrwymiad cryf i hyfforddi nyrsys, ond mae'r trefniadau'n amrywio ar draws safleoedd, ac mae angen gwella rhai agweddau ar hyfforddiant. Yn arbennig, canfûm y canlynol:
- ei bod hi'n ymddangos fel pe bai gan y gwasanaethau fferyllol adnoddau cymharol dda, er bod y proffil staffio cyffredinol a'r canfyddiadau ynghylch llwythi gwaith trwm yn debyg i'r hyn a geir yng ngweddill Cymru;
 - ceir ymrwymiad cryf i hyfforddi nyrsys o fewn y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gellid gwella'r hyfforddiant i feddygon iau a staff y fferyllfa yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Wreccsam Maelor;
 - ceir perthynas dda ar y wardiau, er bod model y gwasanaethau clinigol yn amrywio rhwng y naill safle a'r llall; ac

-
- mae'r gwasanaethau fferyllol yn hygyrch ac yn ymatebol ar y cyfan, ond mae angen gwneud penderfyniad strategol ynghylch yr ymagwedd at oriau agor estynedig y fferyllfa ac oriau gwaith estynedig gwasanaethau eraill y Bwrdd lechyd.
- 100.** Canfûm fod cyfleusterau fferyllfa'r Bwrdd lechyd yn cydymffurfio â mwyafrif helaeth y gofynion allweddol, ond bod gwendidau i'w cael yn uned aseptig Ysbyty Glan Clwyd a phroblemau'n bodoli o hyd o ran storio meddyginiaethau ar y ward. Yn benodol:
- mae'r cyfleusterau fferyllol yn cydymffurfio â'r mwyafrif helaeth o'r gofynion allweddol, ond nid yw lleoliad fferyllfa Ysbyty Glan Clwyd yn ddelfrydol;
 - rhoddodd arolygwyr allanol sgôr risg uchel i'r uned aseptig yn Ysbyty Glan Clwyd, ac yn gyffredin â gweddill Cymru ni chaiff archwiliad rheolaidd ei gynnal o'r trefniadau ar gyfer paratoi meddyginiaethau y gellir eu chwistrellu ar y wardiau; ac
 - mae gan y Bwrdd lechyd fwy o beiriannau dosbarthu awtomatig na'r cyffredin, er bod problemau'n bodoli o hyd o ran storio cyffuriau a reolir ar y wardiau.
- 101.** Ar ben hynny, canfûm nifer o gryfderau yn y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau, er bod problemau'n gysylltiedig â throsglwyddo gwybodaeth, amrywio rhwng safleoedd, cefnogi anghenion cydymffurfio cleifion a phrosesau rhyddhau. Yn fwy penodol:
- Ceir risgiau diogelwch ac agweddau aneffeithlon yn gysylltiedig â'r trefniadau gwael i drosglwyddo gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd.
 - Roedd prydlondeb y trefniadau ar gyfer cysoni meddyginiaethau'n dda yn Ysbyty Glan Clwyd, ac mae cyfradd yr adolygiadau meddyginiaethau cynhwysfawr yn uwch na chyfartaledd Cymru. Roedd gan yr holl gleifion a samplwyd o fewn y Bwrdd lechyd siartiau cyffuriau safonol, ac roedd eu statws o ran alergedd wedi'i gofnodi.
 - Mae prosesau fformiwlari y Bwrdd lechyd yn gyson â gweddill Cymru ar y cyfan, er bod angen gwneud mwy i sicrhau bod canllawiau rhagnodi ar gael i ragnodwyr anfeddygol, a sicrhau bod Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar gael ar ffurf electronig i'r meddygon.
 - Yn gyffredin â gweddill Cymru, nid yw trefniadau rhagnodi electronig ar waith yn wardiau'r Bwrdd lechyd.
 - Mae'r Bwrdd lechyd wedi buddsoddi mewn rhagnodwyr anfeddygol, ac mae ganddo'r polisïau angenrheidiol ar waith, ond mae angen iddo bellach sicrhau bod pobl a chanddynt y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio yn y lleoliadau cywir er mwyn bodloni'r galw.
 - Mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau uniongyrchol mewn ymateb i Ymddiried mewn Gofal, ac fe ganfuom mai cymharol brin oedd yr achosion lle'r oedd ansicrwydd ynghylch a oedd dos wedi'i hepgor neu beidio.
 - Mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud mwy i asesu anghenion cydymffurfio cleifion, helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaeth yn y dull cywir, a deall y rhesymau dros ddefnydd amrywiol ar draws ei linellau cymorth.
 - Mae'r Bwrdd lechyd yn gwneud llai o ddefnydd na'r cyffredin o grynodedau rhyddhau electronig, amcangyfrifon o ddyddiadau rhyddhau ac adolygiadau meddyginiaeth wrth ryddhau.

-
- Cyflwynwyd gwelliannau i ddefnydd y Bwrdd Iechyd o feddyginiaethau gwrthficrobaidd, er mai ychydig o wardiau sy'n cydymffurfio â chanllawiau stiwardiaeth gwrthficrobau.

102. Yn olaf, edrychais ar y trefniadau rheoli perfformiad o fewn y gwasanaeth fferyllol. Ceir lle i atgyfnerthu'r adroddiadau ar berfformiad drwy feincnodi a thrwy gyflwyno adroddiadau manylach i'r Bwrdd. Canfûm fod y gyfradd o dderbyniadau a gofnodir yn gysylltiedig â meddyginiaethau yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mai cyfradd ymyriadau diogelwch y tîm fferyllol oedd yr uchaf o blith yr holl fyrddau iechyd. Deuthum i'r casgliad bod angen gwella'r ymgysylltu clinigol â'r Grwpiau Meddyginiaethau Saffach Lleol, a bod y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd prosesau dysgu yn gymysg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu nifer cynyddol o gleifion sy'n disgwyl yn hir am apwyntiad dilynol, ac nid yw'n gwbl ymwybodol o risg ei wasanaeth clinigol. Er hynny, mae'n dechrau cynllunio i foderneiddio ei wasanaethau i gleifion allanol.

- 103.** Mae gwasanaethau cleifion allanol yn gymhleth ac amlweddol ac yn cyflawni rôl allweddol o ran llwybrau cleifion. Mae perfformiad gwasanaethau cleifion allanol yn cael effaith fawr ar ganfyddiad y cyhoedd o ansawdd, ymatebolrwydd ac effeithlonrwydd byrddau iechyd. I lawer o gleifion, maent yn creu'r argraff gyntaf hollbwysig, ac mae eu gweithredu'n llwyddiannus yn hanfodol er mwyn cyflenwi gwasanaethau i gleifion. Bydd adrannau cleifion allanol yn gweld mwy o gleifion bob blwyddyn nag unrhyw adran arall o'r ysbyty, gydag oddeutu 3.1 miliwn o ymweliadau gan gleifion bob blwyddyn, mewn amryw o leoliadau ledled Cymru.
- 104.** Apwyntiad dilynol yw ymweliad ag adran cleifion allanol yn dilyn ymweliad cychwynnol neu ymweliad cyntaf. Yn ddiweddar, rhoddodd Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru ddiffiniad mwy eglur o ymweliadau dilynol, sef: ymweliadau a drefnir gan y meddyg ymgynghorol neu'r nyrs annibynnol sy'n gyfrifol am glinig o dan yr amodau canlynol. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, apwyntiadau dilynol i gleifion allanol fu oddeutu tri chwarter y gweithgarwch yn ymwneud â chleifion allanol ledled Cymru. Apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yw'r gyfran fwyaf o'r holl weithgarwch ar gyfer cleifion allanol, ac mae potensial iddynt gynyddu eto yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio a chanddi fwy o gyflyrau cronig a chydforbidrwydd.
- 105.** Bu rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau i gleifion allanol yn broblem ers tro. Nodais hynny'n wreiddiol ym mis Awst 2009 yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, cyn ffurfio'r Bwrdd Iechyd. Ers hynny, rwyf wedi adrodd ar broblemau'n gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol wrth y Bwrdd Iechyd yn 2011 ac yn 2014 yn rhan o'n rhaglenni gwaith archwilio lleol. O ystyried maint y broblem ledled Cymru, a'r materion blaenorol a godwyd yn gysylltiedig â diffyg gwybodaeth gyson a dibynadwy, cynhaliais adolygiad o apwyntiadau dilynol i gleifion allanol.

-
- 106.** Cesglais fod arafwch y newid yn arbennig o siomedig, gan fod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r her hon ers fy ngwaith lleol blaenorol yn 2009 a 2011, a'r gwaith dilynol yn 2014. Serch hynny, canfûm drwy fy ngwaith:
- bod y Bwrdd Iechyd yn gliriach ynghylch maint y galw am apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ond bod angen iddo gael dealltwriaeth well ynghylch risgiau clinigol ac amrywio rhwng arferion clinigol ar draws safleoedd;
 - er bod rhestrau aros apwyntiadau dilynol yn gywirach, bod gormod o gleifion yn wynebu oedi, mae'r duedd yn gwaethygu, ac mae angen atgyfnerthu'r trefniadau craffu a sicrwydd; a
 - bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun i wella'r trefniadau gweinyddol ar gyfer apwyntiadau dilynol ac i foderneiddio ei wasanaethau i gleifion allanol, ond mae'r broses o newid yn araf.
- 107.** O ganlyniad i bryderon y tynnwyd fy sylw atynt yn ystod yr adolygiad hwn, mae fy nhîm bron â chwblhau gwaith pellach ar gleifion allanol wroleg. Byddaf yn adrodd ar hyn yn 2016, ac yn mynd ar drywydd unrhyw argymhellion penodol a wnaif yn ystod 2016.

Mae gan y Bwrdd Iechyd bellach broses gadarnach ar gyfer olrhain gweithrediad argymhellion o gymharu â'r blynyddoedd cynt, ac fe geir rhywfaint o dystiolaeth bod y broses o weithredu'r argymhellion wedi cyflymu dros y chwe mis diwethaf.

- 108.** Yn rhan o'm hymrwymiad i gynorthwyo i sicrhau a dangos gwelliant drwy fy ngwaith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm rhaglen leol, a'r rhaglen orfodol genedlaethol o waith archwilio yn ystod 2015. Rhoddodd fy nhîm gefnogaeth i'r Bwrdd Iechyd drwy gynnig sylwebaeth a chyingor ynghylch trefniadau diwygiedig ar gyfer olrhain argymhellion archwilio allanol. Canlyniad y gwaith hwn oedd dull olrhain mwy cynhwysfawr a chyfredol. Mae swyddogion gweithredol bellach yn adolygu'r dull olrhain yn rheolaidd, gan ei fod yn darparu cofnod cadarn o argymhellion i fonitro cynnydd wrth symud ymlaen, ochr yn ochr â phroses ddiwygiedig i gofnodi bod argymhellion wedi'u cwblhau. Bydd y mecanwaith cadarnach newydd hwn yn rhoi mwy o hyder i'r Bwrdd Iechyd, ac i'm staff i, wrth geisio deall a monitro cynnydd. Yn 2016, bydd fy nhîm yn profi'r broses newydd hon drwy fynd ar drywydd trawstoriad arall o'm hargymhellion.
- 109.** Mae'r ffocws ychwanegol yn sgil y cynlluniau 100 diwrnod ar gyfer y pryderon a oedd yn gysylltiedig â'r mesurau arbennig, a'r trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig wedi cyfrannu'n raddol at gyflymu gweithrediad argymhellion archwilio allanol. Caeodd y rheolwyr lawer o argymhellion ar y cofnod olrhain tua diwedd 2015, wrth i'r swyddogion gweithredol adrodd eu bod wedi'u cwblhau. Yn rhan o'm gwaith dilynol yn 2016, byddaf yn cynnal profion er mwyn canfod a yw'r canlyniadau a ddymunir hefyd wedi'u cyflawni.
- 110.** Cyflawnais waith archwilio dilynol manylach hefyd er mwyn asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin â phryderon ac argymhellion yn deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r gwaith dilynol hwn yn [Arddangosyn 3](#).

Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio

Maes gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol
Arlwyo mewn ysbytai	<p>Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i'r argymhellion i wella gwasanaethau arlwygo a maeth cleifion. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i atgyfnerthu agweddau ar y broses sgrinio maeth, i wella'r profiadau i rai cleifion ar amseroedd prydau bwyd, i leihau mwy ar y bwlch rhwng incwm a chostau am wasanaethau arlwygo nas darperir i gleifion, ac i adolygu'r trefniadau cynllunio ac adrodd yn dilyn yr ad-drefnu diweddar. Yn benodol, canfûm:</p> <ul style="list-style-type: none">• fod trefniadau i fodloni anghenion dietegol a maethol cleifion yn gwella o hyd, ond bod y broses sgrinio a'r trefniadau ar gyfer darparu diodydd a gwybodaeth i gleifion yn anghyson;• bod profiadau cleifion ar amseroedd pryd bwyd yn parhau i wella;• bod cost gwasanaethau arlwygo cleifion wedi cynyddu ac, er bod gwasanaethau arlwygo nas darperir i gleifion yn parhau i redeg ar golled, mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn lleihau;• bod y trefniadau i adrodd ar faterion arlwygo a maeth ac i gasglu adborth cleifion wedi gwella, ond bod rhai o'r trefniadau goruchwylio'n parhau i fod yn gymhleth; a• bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni 25 o'r 56 o argymhellion a'r awgrymiadau a nodwyd yn flaenorol yn ein hadroddiadau lleol a chenedlaethol.
Gwaith caffael dilynol	<p>Defnyddiais ddull ychydig yn wahanol wrth fynd ar drywydd argymhellion o'm harchwiliad yn 2013 o anghysondebau caffael, a phrofi 20 o gontractau a ddyfarnwyd rhwng 2014 a 2015. (Rwyf eisoes wedi amlinellu fy nghasgliadau lefel uchel o'r gwaith hwn paragraffau 47 i 50.) Mae un canfyddiad yn arbennig yn berthnasol i hyn:</p> <p>Roedd diffygion yn Null Orlhain Argymhellion y Pwyllgor Archwilio yn golygu bod y sicrwydd a gafwyd ynghylch gweithredu ein hargymhellion caffael blaenorol yn wallus, ond mae'r Bwrdd Iechyd bron a chwblhau gwaith i ddiwygio ei broses. Er bod dau o'r pump o argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn, gwelais wrth brofi'r contractau mai ond wedi'u gweithredu'n rhannol oedd y tri argymhelliad arall.</p>

Maes gwaith dilynol

Gwaith dilynol ar ddangosyddion allweddol a nodwyd yn fy ngwaith blaenorol.

Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol

Mae fy staff wedi parhau i adolygu gweithrediad nifer o'm hargymhellion o'r blynyddoedd cynt:

Theatrau llawdriniaeth: Mae Rheolwyr Gweithredol yn targedu lawer o fesuriadau effeithlonrwydd allweddol, fel y defnydd o amser theatr, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn cyrraedd targedau a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau.

Profiad cleifion: Mae'r ôl-groniad o gwynion wedi gostwng yn sylweddol, ond ar draul hynny ni ymdriniwyd â chwynion newydd yn brydlon. Mae angen i'r timau corfforaethol a gweithredol gydweithio'n agos i weithredu'n benodol ar berfformiad yn erbyn y targed 30 diwrnod Gweithio i Wella.

Meddygon locwm: mae'r gwariant ar feddygon locwm yn parhau i fod yn uchel sef £22.9 miliwn yn wyth mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Serch hynny, mae'r Bwrdd lechyd bellach yn olrhain, yn adrodd ac yn deall y rhesymau sydd wrth wraidd y gwariant hwn. Mae'r Bwrdd lechyd yn dal heb ymateb i rai o'r argymhellion o'm gwaith blaenorol ar feddygon locwm, er bod a wnelo'r rhain yn bennaf â'r angen i gytuno ar strategaeth gwasanaethau clinigol. Dyma faes allweddol y mae angen canolbwyntio arno er mwyn cyflenwi gwasanaethau diogel a chynaliadwy yn y tymor canolig.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Dogfen Cyflwyniadau Archwilio	Chwefror 2015
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol	Mehefin 2015
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2015
Ffurflen Barn ar Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan	Mehefin 2015
Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno	Medi 2015
Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol - Elusen	Hydref 2015
Barn ar y Datganiadau Ariannol - Elusennol	Hydref 2015
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Adolygiad Rheoli Meddyginiaethau	Mai 2015
Adolygiad o Apwyntiadau Dilydol Cleifion Allanol	Hydref 2015
Gwaith Dilydol Lefel Uchel Swyddfa Archwilio Cymru, ar y cyd ag AGIC, ar Drefniadau Llywodraethu	Hydref 2015
Adolygiad Diagnostig o Gapasiti ac Adnoddau TGCh	Tachwedd 2015
Gwaith dilydol ar Anghysondebau Caffael	Tachwedd 2015
Adolygiad Dilydol o Arlwy a Maeth Cleifion mewn Ysbytai	Rhagfyr 2015
Asesiad Strwythuredig 2015	Rhagfyr 2015
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2015	Chwefror 2015

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain isod, ynghyd ag amcan o'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Cyfarpar meddygol	Mawrth 2016
Adolygiad Dilydol o'r Contract Meddygon Ymgynghorol	Gorffennaf 2016
Adolygiad o Wasanaethau Radioleg	Medi 2016

Atodiad 2

Ffi archwilio

Yng Nghynllun Archwilio 2015, nodwyd ffi archwilio arfaethedig o £465,573 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Mae cost y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaethau a rennir, ac a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, wedi'u cynnwys yn y ffi a nodir uchod

Atodiad 3

Risgiau archwilio sylweddol

Yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015, nodwyd y prif risgiau archwilio ariannol ar gyfer 2014-15. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'm harchwiliad ar gyfer 2014-15.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol er mwyn canfod a ydynt yn briodol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu er mwyn canfod unrhyw duedd; ac• yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol.	Cwblheais brofion archwilio â ffocws fel y cynlluniwyd, ar holl rannau perthnasol y datganiadau ariannol. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth ogydd wrth farnu neu amcangyfrif.
Ceir risg gynhenid o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, felly ymdrinnir â hyn fel risg sylweddol [ISA 240.26-27].	Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnder yr incwm amrywiol.	Cwblheais waith archwilio fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wth gydnabod refeniw.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Efallai y ceir risg sylweddol na fydd y Bwrdd lechyd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto beth fydd y dyletswyddau ariannol statudol hynny. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar hyn yn fuan.</p> <p>Dangosai'r sefyllfa ym mis 10 ddiffyg yn y flwyddyn hyd hynny o £29.4 miliwn gan ragweld diffyg o £27.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Efallai y byddaf yn dewis llunio adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol er mwyn egluro'r methiant, a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiant hwnnw. Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd lechyd yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i fodloni unrhyw ddyletswyddau ariannol a osodir.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried ffocws eu profion ar ôl cael eglurhad ynghylch y dyletswyddau ariannol.</p>	<p>Adolygais drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd, materion o bwys yn gysylltiedig â'r sefyllfa ariannol a rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys cydbwysedd ariannol. Er na fydd perfformiad y Bwrdd lechyd yn cael ei fesur yn erbyn gofynion Deddf Cyllid y GIG (Cymru) hyd 2016-16, roedd disgwyl iddo reoli ei gyllid er mwyn sicrhau nad yw'n gorwario yn erbyn ei ddyraniadau refeniw a chyfalaf blynyddol. Adroddodd y Bwrdd lechyd orwariant yn erbyn dyraniad adnoddau o £26.6 miliwn.</p>
<p>Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd lechyd yn wynebu pwysau difrifol yng nghyswllt ei sefyllfa arian parod ar ddiwedd y flwyddyn. Yn yr adroddiad monitro ym mis 10, amcangyfrifwyd diffyg arian parod o £26 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Mae'r diffyg arian parod yn debygol o gynyddu amserau talu credydwy'r ac o effeithio ar berfformiad y Bwrdd yng nghyswllt Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC).</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio perfformiad PTSC gan gofio'r pwysau sydd ar y Bwrdd lechyd oherwydd diffyg arian parod.</p>	<p>Cwblheais brofion a ganolbwyntiai ar berfformiad y Bwrdd o ran PTSC. Er iddo fethu â chyrraedd ei darged o dalu'r nifer o gredydwy'r o'r tu allan i'r GIG cyn pen 30 diwrnod ar ôl darparu, dethum i'r casgliad fod ei berfformiad wedi'i ddatgan yn gywir, ym mhob ffordd berthnasol.</p>

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio a gynigiwyd	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Ceir risg na fydd y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r argymhellion a gyflwynais yn dilyn fy ymchwiliad ar y cyd â'r Adran Archwilio Mewnol yn 2013 i anghysondebau posibl wrth gaffael.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn asesu'r cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a ddeilliai o'r ymchwiliad yn sail ar gyfer fy barn ynghylch rheoleidd-dra.</p>	<p>Cyflawnais waith dilynol ar faterion caffael, a nodi achosion o dorri gweithdrefnau o ran y defnydd o weithrediadau tendr sengl a hepgoriadau. Er fy mod yn fodlon nad oeddent yn cael effaith andwyol ar y farn ynghylch rheoleidd-dra datganiadau ariannol 2014-15, mae osgoi gweithdrefnau caffael yn tanseilio safonau proffesiynol a llywodraethu da, ac yn creu risg i enw da'r Bwrdd Iechyd.</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru